Penrhyncoch

Hyfryd oedd gweld cynifer o'r plant yn eu trwynau cochion ar y dydd a neilltuwyd i gofio trueiniaid y trydydd byd. Da yw sylweddoli bod consyrn mawr gan yr ifanc yn ogystal â'r rhai hyn am y rhai hynny sy'n dioddef newyn a syched yn ein byd. Gobeithio bydd ymdrech arbennig perchenogion y trwynau cochion yn dwyn hapusrwydd a rhyddhad i nifer o'r rhai hynny sy'n gweld eisiau ar ein daear.

Er gwaethaf y gwynt a'r glaw yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn cafodd y bechgyn a'r merched gemau diddorol ar y maes ym Mhlascrug. Yn ei gêm gyntaf yn erbyn tîm hoci o Ysgol Rhydypennau bu i'r merched ennill o ddwy gol i un ond colli fu ei hanes y Sadwrn olaf o Ionawr pan fu iddynt chwarae'n erbyn tîm cyntaf Rhydypennau.

Braf yw medru estyn croesi i ddisgybl newydd arall sef Anthony Daylak o Danycoed, Capel Dewi. Mae Anthony a ddaeth yma o Macclesfield wedi setlo i lawr yn iawn yn nosbarth Miss Jones.

Mae Clwb yr Urdd yn mynd yn ei flaen o nerth i nerth. Braf oedd medru croesawu Mr. Harri Jones atom un prynhawn a threulio orig hyfryd yn ei gwmni.

Y Parch. Peter Thomas - gweinidog Horeb, oedd gyda ni brynhawn Iau - Chwefror 4ydd. Rhoi hanes ei waith a wnaeth Mr. Thomas, a dangos i'r plant gymaint o amrywiaeth o waith oedd ganddo fe fel gweinidog i wneud. Dangosodd luniau o'r gwahanol sacramentau sydd yn cymeryd lle yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd pall ar gwestiynau'r plant a bruan o Mr. Thomas bu rhaid iddo ateb pawb a cheisio eu goleuo yr un pryd.

Prynhawn buddiol iawn oedd hwn i bawb, gan i'r siaradwr fod mor naturiol, ffres a gonest, ac yr oedd pob un yn teimlo'n well ar ôl gwrando.